WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau – **Cyngor Sir Ynys Môn**


Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 275A2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Andy Bruce a Non Jenkins o dan gyfarwyddyd Jane Holownia

# Cynnwys

Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau yn effeithiol ar y cyfan, ond mae'n cydnabod y gellid eu hatgyfnerthu ymhellach.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau yn effeithiol ar y cyfan, ond mae'n cydnabod y gellid eu hatgyfnerthu ymhellach 6

Mae gan y Cyngor weledigaeth a strategaeth glir ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau 6

Mae rolau gwneud penderfyniadau yn cael eu deall ond gallai prosesau ar gyfer byrddau trawsnewid a phwyllgorau craffu'r Cyngor arwain at ychydig o ddyblygu 7

Mae achosion busnes dros newidiadau i wasanaethau yn rhoi ystod dda o wybodaeth ond gellid diffinio effaith cynigion yn y tymor hwy yn well 8

Mae gan y Cyngor weithdrefnau eglur sy'n annog rhanddeiliaid i fod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau ac mae wrthi'n atgyfnerthu ei drefniadau ymgysylltu 9

Mae'r Cyngor yn monitro effaith ei benderfyniadau ar newidiadau i wasanaethau ond gallai wneud rhagor i adolygu a myfyrio ar fanteision ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith 10

Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau gwneud penderfyniadau bob blwyddyn ac mae'n ymwybodol o feysydd lle y gall wella 11

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Mae llywodraethu'n ymwneud â sut mae cyrff cyhoeddus yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, ar gyfer y bobl iawn, mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliannau a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli cyrff cyhoeddus ac a ddefnyddir ganddynt i fod yn atebol i'w cymunedau, ymgysylltu â hwy a, lle y bo'n briodol, eu harwain[1].

2 Mae llywodraethu da yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon yr ymddiriedir ynddynt yn barhaus. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol a'r setliadau is i lywodraeth leol yn ogystal â'r galw cynyddol am rai gwasanaethau yn golygu ei bod yn debygol y bydd angen i bob cyngor barhau i wneud penderfyniadau ynghylch cyfluniad gwasanaethau a'r modd y cânt eu darparu yn y dyfodol. Mae'n briodol bod cyrff cyhoeddus yn ceisio gwella'n barhaus. Gwneir newidiadau cynyddrannol, bach i'r modd y darperir gwasanaethau ar lefel rheolwyr a lefel weithredol fel rhan o'r broses arferol o wneud penderfyniadau gweithredol. Fodd bynnag, mae llywodraethu da wedi'i ategu gan waith cynllunio effeithiol a phrosesau trylwyr yn hanfodol wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau. Yn aml mae'r fath benderfyniadau yn rhai dadleuol ac yn ennyn cryn dipyn o ddiddordeb lleol a gallant gael effeithiau sylweddol ar yr unigolion a'r grwpiau y maent yn effeithio arnynt.

3 Ers mis Ebrill 2016, bu'n ofynnol i gynghorau gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Chanllawiau Statudol cysylltiedig. Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi'r canlynol: 'Gyda'i gilydd, bwriedir i'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'[2]. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd llywodraethu effeithiol i gyflawni nodau llesiant.

4 Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau. Rydym yn diffinio newid i wasanaethau fel unrhyw newid sylweddol i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a/neu unrhyw newid sylweddol o ran profiadau defnyddwyr gwasanaethau allanol o wasanaethau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, newidiadau i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu, lefel y gwasanaeth a ddarperir, argaeledd y gwasanaeth neu gost y gwasanaeth.

[1] CIPFA/SOLACE, **Delivering Good Governance in Local Government: Framework 2007**

[2] Llywodraeth Cymru: **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol, Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

5 Gan gymryd fframwaith diwygiedig Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer ‘Delivering good governance in local government’ fel safon briodol, mae’r adolygiad hwn yn darparu llinell sylfaen i’r Cyngor gynllunio rhagor o welliannau. Yn yr asesiad hwn, a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2016, er mwyn llywio ein hasesiad o drefniadau cyffredinol y Cyngor ar gyfer datblygu newidiadau i wasanaethau a phenderfynu arnynt, ystyriwyd agweddau ar y trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â nifer o gynigion ar gyfer gwneud newidiadau sylweddol i wasanaethau. Ymhlith y newidiadau i wasanaethau a ystyriwyd roedd:

- Adolygiad o weithio doethach:
- Adolygiad o reoli gwastraff gweddilliol: ac
- Adolygiad o lyfrgelloedd.

6 Nid ystyriwyd pob un o’r penderfyniadau unigol ynghylch newid gwasanaethau yn fanwl, ond yn hytrach fe’u defnyddiwyd fel enghreifftiau i gyfeirio atynt a llywio’r ffordd y mae’r Cyngor yn mynd ati i wneud penderfyniadau ynghylch newidiadau i wasanaethau.

7 Yn yr adolygiad hwn, **daethom i’r casgliad bod trefniadau llywodraethu’r Cyngor ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau yn effeithiol ar y cyfan, ond ei fod yn cydnabod y gellid eu hatgyfnerthu ymhellach.**

# Cynigion ar gyfer gwella

### Arddangosyn 1: Cynigion ar gyfer gwella

Mae’r tabl isod yn pennu’r meysydd gwella a nodwyd drwy ein hadolygiad.

| Cynigion ar gyfer gwella |
|---|
| Atgyfnerthu’r trefniadau llywodraethu drwy wneud y canlynol:<br>C1. cyflwyno asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb ar gam cynnar o’r broses gwneud penderfyniadau ac i safon gyson er mwyn helpu’r Cyngor i ddadansoddi ei gynigion ar gyfer newid gwasanaethau yn fwy effeithiol; a<br>C2. datblygu trefniadau ar gyfer monitro effaith a manteision newidiadau i wasanaethau, gan gynnwys nodi’n benodol yr hyn a gaiff ei fonitro, ble y caiff ei fonitro a phwy fydd yn gyfrifol am wneud hynny. |

# Adroddiad manwl

## Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau yn effeithiol ar y cyfan, ond mae'n cydnabod y gellid eu hatgyfnerthu ymhellach

### Mae gan y Cyngor weledigaeth a strategaeth glir ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau

8 Mae gan y Cyngor fframwaith clir ar gyfer penderfynu ar gynigion i newid gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'i weledigaeth, ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2013-17 a'i Gynllun Gwella . diweddaraf.

9 Dylanwedir ar fframwaith y Cyngor ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau gan ei broses herio gwasanaeth, a gynhelir ddwywaith y flwyddyn ym mhob gwasanaeth. Mae'r broses herio gwasanaeth yn canolbwyntio ar berfformiad gwasanaeth penodol, ei sefyllfa ariannol ac unrhyw gynigion i newid y gwasanaeth, gan gynnwys yr effaith bosibl ar y cyhoedd neu ddefnyddwyr. Mae Panel Herio Gwasanaeth y Cyngor yn gweinyddu'r broses herio gwasanaeth ac mae'n cynnwys uwch swyddogion ac aelodau, gan gynnwys y deiliaid portffolio ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r broses yn herio penaethiaid gwasanaeth ar newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys gofyn tri chwestiwn allweddol – beth fydd y gwasanaeth yn parhau i'w wneud, beth fydd y gwasanaeth yn rhoi'r gorau i'w wneud, a beth fydd y gwasanaeth yn ei newid er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd?

10 Caiff newidiadau sylweddol i wasanaethau eu rheoli fel prosiect gan un o ddau fwrdd trawsnewid y Cyngor, sy'n cynnwys uwch swyddog cyfrifol, swyddog prosiect ac aelodau. Mae staff mwy arbenigol, megis y swyddog Monitro a'r swyddog Adran 151, yn cynorthwyo'r byrddau trawsnewid. Mae'r byrddau trawsnewid yn gyfrifol am fonitro cynnydd hyd at y cam gweithredu, ond Cabinet y Cyngor sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ar unrhyw newid i wasanaeth.

11 Mae penderfyniadau i newid gwasanaethau yn ystyried materion trawsbynciol megis goblygiadau o ran cydraddoldeb, cynaliadwyedd a'r Gymraeg sy'n adlewyrchu awydd y Cyngor i hyrwyddo ei gymunedau, y Gymraeg a chynaliadwyedd adnoddau yn y sir.

12 Mae'r Cyngor yn nodi amcanion clir ar gyfer newidiadau i wasanaethau ac yn amlinellu'r rhesymau allweddol dros newidiadau o'r fath o gam cynnar, gan gynnwys lleihau costau sy'n deillio o doriadau cyllidebol a'r broses herio gwasanaeth. Mae amcanion megis gwella ansawdd gwasanaethau i ddefnyddwyr, lleihau atebolrwydd a risgiau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau a chynaliadwyedd parhaus gwasanaethau wedi'u cynnwys. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- mae newidiadau drwy'r adolygiad o weithio doethach yn helpu i newid diwylliant ac arferion gweithio er mwyn cyflawni targedau effeithlonrwydd, a gwella'r gwasanaeth rheng flaen a mynediad i gwsmeriaid ar yr un pryd, a gydnabuwyd gan Arfer Da Cymru[3];
- newidiadau i wasanaethau casglu gwastraff gweddilliol er mwyn gwella cyfraddau ailgylchu cyhoeddus a lleihau faint o wastraff sy'n cael ei dirlenwi, a thrwy hynny gyflawni targedau Llywodraeth Cymru; a'r
- adolygiad o wasanaethau llyfrgell yn seiliedig ar amcanion cynnal gwasanaethau am gost is ond cynnal safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru[4].

13 Mae aelodau a swyddogion yn amlwg yn ymwybodol o bwysigrwydd cydbwyso anghenion byrdymor a diogelu'r gallu i gyflawni amcanion tymor hwy. Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae'r Cyngor yn mynd ati i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion ar gyfer newidiadau i wasanaethau yn y Cyngor, yn dal ei gael ei datblygu.

## Mae rolau gwneud penderfyniadau yn cael eu deall ond gallai prosesau ar gyfer byrddau trawsnewid a phwyllgorau craffu'r Cyngor arwain at ychydig o ddyblygu

14 Mae rolau a chyfrifoldebau ynglŷn â phenderfynu ar newidiadau i wasanaethau wedi datblygu ers creu'r byrddau trawsnewid a newid ffiniau wardiau'r Cyngor, sydd wedi lleihau nifer yr aelodau o 40 i 30. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi ailstrwythuro ei Uwch Dîm Arweiniol ac mae nifer y penaethiaid gwasanaeth wedi haneru bron. Er gwaethaf y newidiadau, mae'r aelodau a'r uwch swyddogion yn parhau i ddangos dealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau unigol yn y broses o benderfynu ar newidiadau i wasanaethau. Mae pob pwyllgor yn gweithredu o fewn cwmpas ei rôl. Fodd bynnag, yn sgil y lleihad yn nifer yr aelodau a'r ffaith bod eu hymrwymiadau i rolau yn y Cabinet, Cabinet yr Wrthblaid ac amrywiol bwyllgorau, gan gynnwys pwyllgorau craffu, yn parhau, mae eu llwyth gwaith wedi cynyddu. Felly, mae rhai aelodau yn mynychu'r byrddau trawsnewid a'r pwyllgorau craffu. Nid yw hwn yn fater sylweddol a gall y byrddau trawsnewid ymdrin â phroblemau posibl cyn bod cynigion yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgorau craffu'n ffurfiol ac i'r Cabinet. Fodd bynnag, mae trafodaethau mewn cyfarfodydd craffu yn cael eu hailadrodd i ryw raddau. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r mater ac mae wrthi'n cynnal adolygiad o'i weithdrefnau llywodraethu.

[3] Arfer Da Cymru yw porth ar-lein unigol i arfer da a gwybodaeth am Wasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru

[4] Mae safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru yn mesur perfformiad gwasanaethau llyfrgell ledled Cymru

15 Mae uwch swyddogion yn ymgysylltu â'r aelodau sy'n rhan o'r broses o benderfynu ar newidiadau i wasanaethau yn rheolaidd ac yn eu cynorthwyo, gan gynnwys y byrddau trawsnewid a'r pwyllgorau craffu. Mae swyddogion yn gwneud sylwadau cyfreithiol ac ariannol ar gynigion drafft ac adroddiadau ar newidiadau i wasanaethau cyn iddynt fynd ymhellach drwy'r broses gwneud penderfyniadau.

16 Mae'r Cyngor ar gam cynnar o hyd o ran diwygio ei drefniadau llywodraethu er mwyn mynd i'r afael â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ond mae wedi diwygio ei dempledi adrodd yn unol â hynny.

## Mae achosion busnes dros newidiadau i wasanaethau yn rhoi ystod dda o wybodaeth ond gellid diffinio effaith cynigion yn y tymor hwy yn well

17 Mae'r Cyngor yn ystyried ystod resymol o opsiynau ar gyfer newidiadau i wasanaethau. Mae'r opsiynau yn amrywio o newidiadau sylweddol i fân newidiadau i wasanaethau. Yn dibynnu ar natur y newid i'r gwasanaeth, caiff rhai opsiynau eu datblygu mewn ymgynghoriad â defnyddwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid, cymunedau, staff y Cyngor a'r sector gwirfoddol (Medrwn Môn). O'r achosion busnes a adolygwyd gennym, roedd y rhan fwyaf yn gynhwysfawr ac yn disgrifio'n fanwl nifer o opsiynau amgen. Mae'r aelodau o'r farn eu bod yn cael gwybodaeth briodol ac ystod dda o opsiynau er mwyn llywio eu penderfyniadau ar newidiadau i wasanaethau. Fodd bynnag, nododd rhai aelodau y gellid diffinio effaith newidiadau i wasanaethau yn y tymor hwy yn well ac, o'n harolwg, mae rhai rhanddeiliaid a swyddogion o'r farn nad yw'r Cyngor yn rhoi digon o ystyriaeth i effaith hirdymor newidiadau i wasanaethau.

18 Mae'r meini prawf a ddefnyddir i arfarnu newidiadau i wasanaethau yn gyson ar y cyfan ac yn ystyried y cydbwysedd rhwng costau a manteision i'r cyhoedd. Mae'r meini prawf yn cynnwys diffinio'r amcanion dros newid, gwybodaeth am safonau ac ansawdd gwasanaethau, risgiau posibl, agweddau ariannol, a chynaliadwyedd y gwasanaeth.

19 Rhoddir gwybodaeth briodol i'r aelodau am yr ystod o opsiynau er mwyn llywio eu penderfyniadau ynglŷn â newidiadau i wasanaethau. Os bydd materion mwy technegol yn codi, caiff aelodau eu cynorthwyo drwy weithdai, arweiniad a chyngor gan swyddogion.

20 Mae gan y Cyngor drefniadau fel y gellir craffu ar gynigion ar gyfer newid gwasanaethau a'u herio a phrosesau arfarnu opsiynau. Mae hyn yn dechrau ar gam cynnar yn y broses mewn cyfarfodydd herio gwasanaeth ac wedyn drwy'r byrddau trawsnewid. Pan benderfynir gweithredu, mae'r opsiynau yn destun proses craffu ffurfiol cyn iddynt fynd ymhellach, a cheir enghreifftiau o herio cadarn i rai cynigion ar gyfer gwasanaethau.

21 Gan fod swyddogion yn cymryd rhan yn y paneli herio gwasanaeth a'r byrddau trawsnewid, cânt gyfleoedd addas i gydgysylltu â'r aelodau ynglŷn â chynigion ac arfarniadau o opsiynau.

22 Caiff penderfyniadau ynglŷn â chynigion i newid gwasanaethau eu cofnodi ac mae cofnodion ac adroddiadau i'r Cyngor, y Cabinet a'r pwyllgorau craffu ar gael ar wefan y Cyngor. Caiff trafodaethau yng nghyfarfodydd llawn y Cyngor eu gweddarlledu ac mae papurau hanesyddol hefyd ar gael drwy'r wefan a gellir cael gafael arnynt mewn fformatau gwahanol.

## Mae gan y Cyngor weithdrefnau eglur sy'n annog rhanddeiliaid i fod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau ac mae wrthi'n atgyfnerthu ei drefniadau ymgysylltu

23 Mae prosesau ymgynghori ac ymgysylltu wedi gwella'n gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac mae trefniadau'r Cyngor yn cynnig cyfleoedd i randdeiliaid a'r cyhoedd ymgysylltu a rhoi adborth ar newidiadau arfaethedig i wasanaethau. Caiff pob newid sylweddol i wasanaeth ei ddatblygu drwy gynnwys y cyhoedd, rhanddeiliaid a staff y Cyngor. O'r sampl o newidiadau i wasanaethau a adolygwyd gennym, cafodd pob un ei ddatblygu o Gynllun Corfforaethol 2013-17 y Cyngor a oedd yn cynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, rhanddeiliaid, staff a'r aelodau.

24 Mae'r Cyngor wedi cytuno â Medrwn Môn ar brotocol ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd a Medrwn Môn sy'n darparu'r arbenigedd ymgysylltu allanol ac sy'n rhoi cymorth i grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar yr ynys. Drwy'r bartneriaeth hon, mae Medrwn Môn wedi datblygu Cyd-fwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori (y Bwrdd) â'r Cyngor ac mae wedi mabwysiadu egwyddorion Llais Cymunedol[5] ynghylch ymgysylltu â chymunedau anodd eu cyrraedd. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o bob rhan o'r Cyngor, gan gynnwys swyddogion ac aelodau etholedig, Llais Cymunedol a staff Medrwn Môn. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd[6] er mwyn helpu i ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn fwy effeithiol yn gyffredinol.

25 Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ôl nodi newidiadau posibl i wasanaethau ac mae'n ystyried y ddyletswydd cydraddoldeb sydd ar y Cyngor mewn perthynas ag ymgysylltu. Fodd bynnag, nid yw'n hollol amlwg sut mae proses ymgysylltu gadarn yn casglu barn yr holl grwpiau amrywiol yr effeithir arnynt o bosibl, ond ceir enghreifftiau lle mae'r Cyngor yn cynnwys rhai grwpiau'n effeithiol mewn cynigion i newid gwasanaethau, megis y gwaith gyda Llais Cymunedol.

26 Cynhelir asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb er mwyn arfarnu effaith y cynigion i newid gwasanaethau a ragwelir ond maent yn amrywio o ran ansawdd, o

[5] Prosiect i sicrhau mwy o ymgysylltu ag unigolion a chymunedau yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus ar Ynys Môn yw Llais Cymunedol.

[6] Cyfres gyffredin o egwyddorion sydd wedi'u hanelu at sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mhob sector yng Nghymru yw'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Fe'u datblygwyd gan Cyfranogaeth Cymru.

asesiadau trwyadl ac eang eu cwmpas i rai sy'n fwy cyfyngedig eu cwmpas. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ymwybodol y gellid atgyfnerthu asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, gan gynnwys eu cyflwyno'n gynharach yn y broses o newid gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ystyried nifer o opsiynau i'w helpu i wella'r broses o benderfynu ar newidiadau i wasanaethau sy'n ymgorffori gofynion Deddf Cydraddoldeb 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

27 Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2016 yn cynnwys ei drefniadau i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb. Mae'n tynnu sylw at ymgysylltu â grwpiau gwarchodedig yn y broses o asesu effaith debygol unrhyw bolisïau ac arferion y mae'r Cyngor yn eu cynnig, eu hadolygu neu eu diwygio. Mae'r Cyngor wedi nodi nifer o grwpiau rhestredig yr ystyrir eu bod yn gynrychioliadol o un neu fwy o'r grwpiau gwarchodedig. Mae'n gweithio gyda Medrwn Môn i barhau i ddatblygu'r dull gweithredu a sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu'n briodol.

28 Yn y newidiadau i wasanaethau a ystyriwyd gennym, mae trefniadau gwneud penderfyniadau yn cynnig cyfleoedd i randdeiliaid a'r cyhoedd ymgysylltu a rhoi adborth.

Cyfeirir at yr ymgynghoriadau ar wefan y Cyngor a gellir eu gweld drwy'r wefan ac o'n harolwg mae'r rhan fwyaf o bartneriaid yn cytuno bod y Cyngor yn ymgysylltu â hwy wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau.

29 Mae'r Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd da i ymgynghoriadau ynghylch newidiadau i wasanaethau ar y dechrau, drwy ei wefan a thrwy amrywiaeth o gyfryngau eraill ar Ynys Môn. Pan fydd unrhyw newid posibl i wasanaeth yn cyrraedd y camau craffu ffurfiol a llywodraethu, mae cofnodion, agendâu ac adroddiadau gan bwyllgorau sy'n trafod newidiadau i wasanaethau a gwybodaeth am ymgynghoriadau ar gael ar-lein gyda chyfeiriadau atynt.

## Mae'r Cyngor yn monitro effaith ei benderfyniadau i newid gwasanaethau ond gallai wneud rhagor i adolygu a myfyrio ar y manteision ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith.

30 Mae'r Cyngor wedi nodi'r cyfeiriad cyffredinol a rhai mesurau perfformiad sydd eu hangen arno i fonitro'r broses gyflawni, perfformiad ac effaith ariannol newidiadau i wasanaethau. Mae trefniadau monitro a gwerthuso wedi'u cynnwys yn y cynigion i newid gwasanaethau ac mae'r byrddau trawsnewid a'r Uwch Dîm Arweiniol yn cael adroddiadau a chyflwyniadau rheolaidd arnynt.

31 Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi pwy sy'n gyfrifol am fonitro newidiadau i wasanaethau. Y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol sy'n atebol am arwain a chyflawni rhaglen waith trawsnewid y Cyngor, ond ar gyfer pob newid i wasanaeth penodir uwch swyddog cyfrifol sy'n atebol am fonitro effaith neu fanteision penderfyniadau.

32 Ar gyfer pob newid sylweddol i wasanaeth llunnir cynllun busnes, sy'n esbonio'r trefniadau ar gyfer monitro penderfyniadau drwy'r byrddau trawsnewid a'r Uwch

Dîm Arweiniol. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau newid gwasanaeth yn esbonio sut mae'r Cyngor yn disgwyl monitro llwyddiant, gyda meini prawf llwyddiant penodol sy'n briodol ac yn gymesur â'r newid i'r gwasanaeth unigol. Mae'r Cyngor yn cydnabod, er ei fod yn neilltuo llawer o amser i baratoi cynigion a rhoi newidiadau i wasanaethau ar waith, ei fod yn treulio llai o amser yn gwerthuso eu heffaith. Er bod y Cyngor yn bwriadu i bob un o'i adrannau adolygu a gwerthuso canlyniadau newidiadau, nid oes digon o adnoddau nac amser ar gael bob amser iddynt adolygu a myfyrio'n drwyadl.

33 Mae trefniadau monitro addas ar waith i reoli arbedion. Mae adroddiadau i'r Cabinet a'r Cyngor yn esbonio sut y caiff arbedion ariannol eu monitro a'u cofnodi ac mae trefniadau ar waith i fonitro'r ffordd y caiff arbedion cyllidebol a ragwelir eu gwireddu.

## Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau gwneud penderfyniadau bob blwyddyn ac mae'n ymwybodol o feysydd lle y gall wella

34 Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'i gryfderau a'i wendidau ac mae'n barod i dderbyn cyngor gan reoleiddwyr allanol er mwyn helpu i wella ei drefniadau. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn nodi'n glir sut mae'r Cyngor yn gweithredu a'r broses o lunio polisïau a gwneud penderfyniadau. Cafodd y Cyfansoddiad ei ddiweddaru'n ddiweddar ym mis Rhagfyr 2016 er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd yn sgil Etholiadau Llywodraeth Leol 2013, gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a'r newidiadau ar ôl ailstrwythuro uwch arweinwyr. Mae'r Cynllun yn bwriadu edrych eto ar ei Gyfansoddiad wrth i drefniadau gwneud penderfyniadau ddatblygu.

35 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cynnwys crynodeb o'r camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i wella ei drefniadau llywodraethu, gan gynnwys penderfynu ar newidiadau i wasanaethau. Newidiodd y Cyngor strwythur a gweithrediad y broses graffu, gan leihau nifer y pwyllgorau craffu o bump i ddau. Gwnaeth hefyd ad-drefnu ei fyrddau trawsnewid er mwyn adlewyrchu ei fodel craffu diwygiedig. Cyflwynwyd cyfarfodydd herio gwasanaeth dwywaith y flwyddyn ynghyd â newidiadau mawr i'r Uwch Dîm Arweiniol a strwythur y penaethiaid gwasanaeth er mwyn symleiddio'r trefniadau gwneud penderfyniadau a gwella atebolrwydd. Mae'r Cyngor wedi comisiynu'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn ddiweddar i adolygu ei drefniadau craffu presennol, gan gynnwys ei raglen drawsnewid.

36 Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid gwasanaethau ac mae'n cynnwys risgiau yn yr adroddiadau monitro ar gyfer newidiadau i wasanaethau unigol ac mae'n cyflwyno adroddiadau arnynt i'r byrddau trawsnewid.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru